**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol**

**Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol, a gynhaliwyd ddydd Mercher, 13 Hydref 2021**

**1. Yn bresennol:**

Vikki Howells AS, Cwm Cynon; Sam Rowlands AS, Gogledd Cymru; Luke Fletcher AS, Gorllewin De Cymru; Joel James AS, Canol De Cymru; Robin Lewis, Swyddfa Vikki Howells AS; y Cynghorydd David White, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chadeirydd ICA Cymru; y Cynghorydd Jayne Brencher, CBC Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Dai Davies, CBC Blaenau Gwent; y Cynghorydd Gareth Jones, CBC Rhondda Cynon Taf; y Cynghorydd Graham Thomas, Rhondda Cynon Taf CBC; y Cynghorydd Anthony Hunt, CBS Torfaen; y Cynghorydd John Hill, CBC Blaenau Gwent; y Cynghorydd Stuart Baldwin, CBC Pen-y-bont ar Ogwr; Elllie Fry, CBC Blaenau Gwent; Rob Wellington, CBC Torfaen; Paul Hudson, CBC Caerffili; Alexander Still, Swyddfa Hefin David AS; Lisa Williams; Beth Walters; Zahra Yasmin, Swyddfa Luke Fletcher AS; Sion Trewyn, Swyddfa Llyr Gruffydd AS; Peter Slater, ICA Cymru; Joan Dixon, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA; Stephen Fothergill, Ysgrifenyddiaeth Genedlaethol yr ICA.

**2. Ymddiheuriadau:**

Cafwyd ymddiheuriadau: Rhys ab Owen AS; Sioned Williams AS; Huw Irranca Davies AS; Y Cynghorydd Geraint Thomas, CBC Merthyr Tudful.

**3. Croeso**

Croesawodd Vikki Howells AS, y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar ôl agor chweched sesiwn y Senedd.

**4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021.**

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod cyffredinol blynyddol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2021 yn gywir.

**5. Materion sy'n codi**

**Eitem 8: Eitemau i'w trafod yn y dyfodol**

Gofynnodd y Cynghorydd Graham Thomas am y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad y trafodaethau rhwng y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd ynghylch pynciau i'r Grŵp Trawsbleidiol eu trafod yn y dyfodol. Ymddengys mai'r papur gwyn ar Godi'r Gwastad a'r cynigion perthnasol ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU oedd y blaenoriaethau ar hyn o bryd.

## 6. Codi’r Gwastad: Blaenoriaethau'r Adolygiad o Wariant a’r Papur Gwyn

Croesawyd yr Athro Stephen Fothergill o’r Gynghrair Cymunedau Diwydiannol (ICA) i’r cyfarfod.

Agorodd yr Athro Fothergill ei gyflwyniad drwy gyfeirio at y modd roedd Llywodraeth y DU yn camu i'r bwlch a adawyd gan yr UE, a’r pŵer sydd gan y Llywodraeth, o dan y Ddeddf Marchnad Fewnol, i ymyrryd mewn datblygiadau rhanbarthol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. O ganlyniad, roedd darpariaethau'r Papur Gwyn arfaethedig ar Godi’r Gwastad yn arwyddocaol iawn.

Gan droi at flaenoriaethau Gynghrair Cymunedau Diwydiannol ar gyfer yr Adolygiad o Wariant a'r Papur Gwyn arfaethedig, rhestrodd yr Athro Fothergill ddeg o flaenoriaethau y dylid eu defnyddio i bwyso a mesur cynigion y llywodraeth:

- Dim cyfnod arall o gyni o gofio bod twf yn cynyddu refeniw, yn lleihau gwariant ar fudd-daliadau y tu allan i'r gwaith ac yn lleihau'r diffyg.
- Cyllid newydd ar gyfer Codi’r Gwastad, sy'n mynd y tu hwnt i’r ymrwymiadau presennol.
- Cronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y DU sy'n addas i’r diben ac yn seiliedig ar: fformiwla sy’n seiliedig ar anghenion; dyraniadau ariannol aml-flwyddyn; targedau a phenderfyniadau isranbarthol; a'r addewid i ddarparu cyllid sy’n cyfateb i’r hyn a gafwyd gan yr UE.
- Llinell gyllideb ar gyfer cymorth busnes gan seilio’r system newydd ar gyfer Rheoli Cymorthdaliadau ar Fap o Ardaloedd â Gynorthwyir, cymorth ehangach a dwysterau cymorth uwch.
- Gwariant ar Ymchwil a Datblygu sy’n cael ei ddosbarthu’n decach, o gofio bod bron hanner y gwariant cyhoeddus yn cael ei roi i Rydychen, Caergrawnt a Llundain ar hyn o bryd.
- Mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith i unioni’r anghydbwysedd rhanbarthol ac ariannu prosiectau mwy.
- Llenwi’r bwlch cyllido ar gyfer datblygu tir ac eiddo i ysgogi buddsoddiad mewn ardaloedd sydd â gwerthoedd tir a rhenti isel.
- Mwy o gyllid i awdurdodau lleol i fynd i’r afael â’r argyfwng o ran ariannu gwasanaethau lleol hanfodol;
- Datganoli penderfyniadau i arweinwyr lleol er mwyn hyrwyddo atebolrwydd democrataidd ac ymateb yn fwy sensitif i anghenion lleol a’u galluogi i gymryd camau a chyflwyno mentrau annibynnol.
- Ymrwymiad tymor hir i godi’r gwastad sy'n cydnabod problemau dwys ardaloedd llai llewyrchus, nad oes atebion syml iddynt.

Aeth Peter Slater, Cyfarwyddwr ICA Cymru, rhagddo i sôn am faterion yn ymwneud â’r angen i barchu’r setliad datganoli er mwyn osgoi’r

dyblygu a’r darnio a allai ddigwydd os caiff penderfyniadau eu gwneud yn ganolog yn San Steffan. Ychwanegodd ei bod yn bwysig sicrhau bod agenda’r codi’r gwastad yn gydnaws â chynlluniau gwariant ym Mae Caerdydd ac yn eu hategu. Pwysleisiodd hefyd fod hanes hir o weithio mewn partneriaeth yng Nghymru a’i bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o’r strwythur llywodraethu ar gyfer cyflwyno agenda codi’r gwastad yn ysbryd *Adolygiad Dunlop, 'UK Government Union Capability*'. Yn olaf, cyfeiriodd at y ffaith nad oes gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a'i olynydd newydd, Codi’r Gwastad, fawr o brofiad o weithio gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a'i bod yn bwysig manteisio i'r eithaf ar y gallu a'r arbenigedd sy’n bod eisoes yng Nghymru.

Yna, cafwyd trafodaeth eang ar y materion a godwyd yn y cyflwyniad ac, yn dilyn awgrym gan y Cyng Anthony Hunt, cytunwyd i gylchredeg papur manylach gan yr ICA ar y deg blaenoriaeth. Soniodd y Cyng Graham Thomas am yr angen i roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau a mentrau fel '*academïau rhagoriaeth,* a hynny yng nghyd-destun cymorth gan y wladwriaeth. Yn y cyswllt hwn, cadarnhawyd y dylai'r system Rheoli Cymorthdaliadau newydd a Chronfa Ffyniant Gyffredin y DU hwyluso cymorth o'r fath. Cyflwynodd y Cyng David Whitey y syniad o ddefnyddio darpariaethau Rheoli Cymorthdaliadau i fynd i’r afael â dad-garbonio’r diwydiant dur, a thanlinellodd y Cyngh Jayne Brencher yr angen i fanteisio ar botensial prifysgolion Cymru ym maes Ymchwil a Datblygu. Yn olaf, gofynnodd Sam Rowlands AS sut roedd y Llywodraeth yn ymateb i sylwadau'r ICA. Clywyd bod swyddogion, yn gyffredinol, yn hoffi’r awgrym yn ymwneud â’r map o ardaloedd a gynorthwyir, ac roedd rhai arwyddion cynnar hefyd y gallai’r syniad o gyflwyno Cronfa Ffyniant Gyffredin sy’n seiliedig ar fformiwla gael ei dderbyn. Roedd pryderon yn parhau, fodd bynnag, y gallai’r gweinyddiaethau datganoledig gael eu gwthio i ymylon y broses o wneud penderfyniadau.

7. Pynciau i’r Grŵp Trawsbleidiol eu trafod yn y dyfodol

Ar wahân i drafod y papur gwyn ar Godi’r Gwastad, awgrymwyd y gallai’r pynciau i’w trafod yn y dyfodol gynnwys yr economi werdd a dad-garboneiddio gwaith dur Port Talbot.

**8. Sylwadau i gloi**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a’u cyfraniadau, ac ychwanegodd y byddai’r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar ôl y Nadolig.

Peter Slater
Ysgrifennydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Gymunedau Diwydiannol

18 Hydref 2021